Rhyngwladol @ || International @

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Bywyd Campws
Campus Life

Chwiliwch am: CampusLifeSU

Rhifyn Haf 2024

# Newyddion GO!

| Darganfod - Cyfoethogi - Cysylltu |

## Annwyl Ddarllenydd

**Croeso i rhifyn yr Haf Newyddion GO! ar gyfer 2024!**

**Gobeithiwn eich bod chi'n mwynhau darllen am yr holl bethau rydym wedi'u trefnu i chi ar gyfer gwyliau'r haf sydd ar ddod.**

**Beth am ddathlu diwedd y tymor drwy ymuno â ni yn un neu fwy o'r ddigwyddiadau/wibdeithiau niferus rydym wedi'u trefnu? Mae digon o ddewis felly gobeithiwn fod rhywbeth sy'n apelio at bawb. Os oes gennych syniadau, rhowch wybod i ni: gosocial@abertawe.ac.uk**

**Hefyd, mae gennym ni wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli a lle gallwch gael cyngor a chymorth.**

Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Kayleigh, Beth
**International@CampusLife**



## International@CampusLife

Yma i helpu

Mae tîm Rhyngwladol@BywydCampws yma i helpu a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol gydag ymholiadau anacademaidd. Yn benodol, gallwn eich helpu gyda fisâu a mewnfudo, cwestiynau am deuluoedd rhyngwladol ac agweddau diwylliannol ar fyw yn y DU. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin cymunedau drwy ein Rhaglen GO!

Cofiwch - rydym ni yma i'ch cefnogi chi! Ewch i'n gwefan i archwilio ein tudalennau cyngor ac arweiniad, yn ogystal â manylion am sut gallwch chi gysylltu â ni drwy e-bost, Sgwrs Fyw, gweminarau achlysurol neu weithgareddau ar-lein eraill: www.swansea.ac.uk/international-campuslife/

Mae gennym hefyd ein Grŵp Croeso Rhyngwladol Prifysgol Abertawe swyddogol ar Facebook, sy'n croesawu myfyrwyr rhyngwladol newydd i'n prifysgol, gan eu cysylltu nhw â phobl ar eu cyrsiau a ffrindiau. Cliciwch yma neu chwiliwch amdanom ni ar Facebook a dewch yn rhan o'n cymuned ryngwladol.

Beth sy'n digwydd?

Bydd ein rhaglen yr haf yn llawn gweithgareddau difyr gan gynnwys nosweithiau ffilm, clybiau swper, digwyddiadau cymdeithasol a'n gwibdeithiau poblogaidd.

Dyma restr o'n digwyddiadau sydd ar ddod:

- Gwibdaith GO!: Parc Gwledig Pen-bre - 1 Mehefin
- Ffilm GO!: Pride - 7 Mehefin
- GO! Bwyta: Muswanna - 11 Mehefin
- GO! Cymdeithasol: Rhwydwaith Teithio - 12 Mehefin
- Gwibdaith GO!: Gŵyr - 20 Mehefin
- GO! Cymdeithasol a Ffydd: Heulsafiad yr Haf - 21 Mehefin
- Ffilm GO!: Jungle Cruise - 5 Gorffennaf
- GO! Bwyta: Ripples - 16 Gorffennaf
- Gwibdaith GO!: Tewkesbury - 17 Gorffennaf
- GO! Cymdeithasol: Diwrnod Rhyngwladol Cyfeillgarwch - 30 Gorffennaf
- Gwibdaith GO!: Parc Bywyd Gwyllt Manor - 7 Awst
- GO! Cymdeithasol: Digwyddiad Cymdeithasol - Caerffili - 29 Awst
- Gwibdaith GO!: Caerffili - 31 Awst

Digwyddiadau Cymdeithasol yr Haf Abertawe

## GO! Edrych yn ôl

### GO! Taith: Pwll Mawr a'r Fenni



**Mae ein Gwibdeithiau GO! i ddinasoedd mawr y DU bob amser yw digwyddiadau mwyaf poblogaidd Rhyngwladol@BywydCampws. Ym mis Mai, yn gyntaf, aethon ni i bwll glo go iawn gan gynnwys teithiau tanddaearol i archwilio hanes glo a diwydiant de Cymru yn Amgueddfa Big Pit sy'n un o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Ar ôl hynny, aethon ni i dref farchnad hardd Y Fenni lle cawsom ginio ac ychydig bach o siopa!**

"Ces i gyfle i fynd dan y ddaear i ddyfnder o 90 metr."

"Roeddwn i'n caru'r awyrgylch yn Y Fenni!"

## Cyfarfod Tîm GO!

**Ym mhob rhifyn, rydyn ni'n cyfarfod ag aelod arall o Dîm GO!**



Enw: Udita Parikh
Cwrs: MSc Gwyddoniaeth Wybyddol a Niwrowyddoniaeth
Cenedligrwydd: Indiaidd

Pam y dewisaist astudio ym Mhrifysgol Abertawe?
Dewisais Abertawe am eu bod yn darparu cyrsiau ôl-raddedig a llwyddodd cynnwys y cwrs a'r hyn y byddent yn ei addysgu i mi i ennyn fy niddordeb.

Pam penderfynaist ti wirfoddoli fel aelod o dîm GO!? Pob clod i Beth sef cydlynydd tîm staff GO!. Hi yw'r rheswm ymunais â thîm GO! am ei bod yn rôl wych i'w chyflawni a gallwn gwrdd â phobl newydd bob tro.

Beth yw dy brif ddyletswydd fel aelod o dîm GO! yn dy farn di!?
Fel aelodau tîm GO! rydych chi'n gyfrifol am gynnal a threfnu digwyddiadau a sgwrsio'n rheolaidd â phawb - ac rwy'n dwlu ar hyn!

Beth sy'n gwneud aelod da o dîm GO!? Mae'n rhaid i chi fod yn fentrus, bod ar gael, bod yn wych o ran gwaith tîm a bod yn dda wrth gyfathrebu, nid yn unig gydag aelodau eraill o dîm GO! ond hefyd gyda'r holl fyfyrwyr yn y digwyddiad.

Beth yw'r peth gorau am fod yn rhan o dîm GO! hyd yn hyn? Mae pob rhan wedi bod y rhan orau i mi yn ei ffordd unigryw. Un o'm prif resymau a dylanwadau i fod yn rhan o'r tîm yw fy hunan-ddatblygiad oherwydd nawr dydw i ddim yn betrusgar neu'n teimlo'n lletchwith mwyach wrth ddechrau sgwrs gyda phobl. Mae wir wedi fy helpu i agor i fyny a magu fy hyder.

Pam rwyt ti'n meddwl y dylai myfyrwyr eraill gyflwyno cais i ymuno â thîm GO!?
Os ydych chi'n dwlu ar ddarganfod bwydydd a lleoedd newydd, cymdeithasu gyda phobl a mwynhau celf a chrefftau a chwarae gemau yn ogystal â llawer mwy, ymunwch â ni yn nhîm GO! - gallai fod yn berffaith i chi.

## Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

**Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gyfarfod â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chwarae rhan yn y gymuned.**

**Os hoffech chi wirfoddoli fel aelod o Dîm GO! , a'ch bod am gael gwybodaeth bellach, cofrestrwch ar gyfer cyfrif canfod a chofrestrwch i fod yn wirfoddolwr Tîm GO! yma: https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/10193151 neu e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk.**




## GO! Bwyta | Cost £10 (fel arfer)

**Ers i ni ddechrau ychydig flynyddoedd yn ôl, mae nosweithiau bwyta GO! wedi mynd o nerth i nerth – mae myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr cartref wedi ymgynnull mewn bwytai gwahanol yn Abertawe bob mis i fwynhau bwyd o bob cwr o'r byd, ac i gyfarfod â ffrindiau newydd hefyd! Bydd y bwyty sy'n ein croesawu ni fel arfer yn darparu bwydlen osod o £10 i ni ac mae yna ddigonedd o fwyd bob amser! Mae nosweithiau bwyta GO! yn cael eu hysbysebu ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac mae tocynnau'n cael eu gwerthu drwy https://events.swansea-union.co.uk/group/313/campus-life**



5 traeth y gellir eu cyrraedd yn hawdd i'w harchwilio yr haf hwn!

Mae Abertawe'n ddinas hardd ac mae digonedd o leoedd i'w harchwilio. Y 5 traeth hawsaf eu cyrraedd ar y bws yw:

Bae Abertawe
Cyferbyn â Champws y Parc, gan gynnig digon o le i gael barbeciw neu chwarae gemau traeth.

Bae'r Tri Chlogwyn
Mae Bae'r Tri Chlogwyn yn cynnig profiad mwy gwyllt. Dychmygwch arfordir godidog o dwyni, morfeydd heli ac, wrth gwrs, y tri chlogwyn carreg galch yr enwyd y Bae ar eu hôl. Neidiwch ar fws rhif 14 o ganol y ddinas i gyrraedd Pennard.

Bae Bracelet
Nepell o dref glan y môr boblogaidd y Mwmbwls, mae gan Fae Bracelet arfordir creigiog a golygfeydd o Ddyfnaint ar ddiwrnod braf! Daliwch fws rhif 3 neu rif 3A o ganol y ddinas tuag at Y Mwmbwls.

Bae Limeslade
Limeslade yw'r traeth nesaf - hafan arw a chreigiog. Cildraeth bach, dan gysgod y mae'n hawdd ei gyrraedd - beth am brynu hufen iâ Forte's hefyd!

Rhosili
Hoffech chi gael gwibdaith arall? Daliwch fws rhif 118 neu 119 o ganol y ddinas i fynd i weld y blodau haul hardd ac efallai, groesi i Ben Pyrod (gwiriwch amseroedd y llanw)




Cyflwyno digwyddiadau cymdeithasol drwy gydol gwyliau'r haf i chi!